PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 157 Rhif 37 Medi 12, 2024 50c.

Soar y Mynydd

Cawsom wasanaeth dyrchafol ac ysbrydoledig pnawn Sul 25 Awst a hynny o dan ofal y Parchg Carys Ann, Penrhiw-pâl. Hyfryd oedd croesawu rhai o'i haelodau i gydaddoli â ni. Diolch yn fawr i'r gynulleidfa gref a oedd yn bresennol, gyda nifer wedi dod o'r gogledd, Sir Fôn ac ardal Caernarfon, ac eraill wedi dod o'r de. Gwnaeth Evie Jones, Llannerch-y-medd, Sir Fôn ymdrech fawr i ddod holl ffordd o'r gogledd er mwyn bod yn bresennol yn yr addoliad.

Gwnaed y cyhoeddi gan David Evans, Bow Street a chwaraewyd yr allweddell gan Mair Richards, Llanddewibrefi.

Lynwen Hughes

Pererindod Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin

Fore Sul, 23 Mehefin, aeth llond bws o aelodau a chyfeillion ar y cyntaf o bererindodau gofalaeth newydd Caerfyrddin a Bancyfelin, gyda'r gyrrwr ardderchog, Elfed Lewis, wrth lyw'r bws. Ein cyrchfan oedd capel bach Soar y Mynydd yn y mynyddoedd uwchben Tregaron, er mwyn mynychu oedfa dan ofal ein gweinidog, y Parchg Beti-Wyn James.

Tir Dewi

Ein harosfan gyntaf oedd neuadd gymunedol Cwmann, ger Llambed, Paratôdd chwiorydd eglwys Brondeifi luniaeth blasus tu hwnt ar ein cyfer, cyn inni wrando ar Catrin Griffiths, un o wirfoddolwyr Tir Dewi, yn absenoldeb anorfod y Parchg Wyn Thomas, yn siarad am yr elusen. Fe'i sefydlwyd tua 8 mlynedd yn ôl gan y Canon Eileen Davies er mwyn cynnig clust i wrando ar bobl sy'n dymuno siarad am eu problemau. Roedd hi'n ymwybodol fod angen help ar ffermwyr a ddioddefai amser anodd. O fewn Esgobaeth Tyddewi y gweithiai'r elusen ar y dechrau, gan ehangu trwy Gymru gyfan fel y cynyddai nifer y galwadau a'r gwirfoddolwyr. Erbyn hyn ceir tua chant o bobl o amrywiol gefndiroedd yn gwirfoddoli i Dir Dewi. Mae'r gwasanaeth yn gyfrinachol, ac am ddim i'r rhai sy'n cysylltu, gyda llinell gymorth o 9yb hyd 9yh, a rhywun ar gael dros nos hefyd. Gwrando a wna'r gwirfoddolwyr yn bennaf, gan mai'r peth pwysig i'r rhai sy'n dioddef yw siarad, a

parhad ar dudalen 2

Pererindod Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin – parhad

rhannu gofid. Un canlyniad cadarnhaol i'r gwaith o wrando yw bod y gwirfoddolwyr a'r rhai sy'n gofyn am help yn creu perthynas agos iawn, a dônt yn ffrindiau parhaol.

Soar y Mynydd

Cyn cyrraedd capel Soar y Mynydd cawsom gyfle i fwyta'n picnic, cael awyr iach pe dymunem, ac ymestyn y coesau, yn ardal hyfryd Cwm Berwyn a golygfeydd godidog yr ardal.

Roedd yr oedfa yn y capel am 2yp dan ofal Beti-Wyn James, gyda chymorth Natalie Morgan yn darllen Salm 1, a'r Parchg Tom Defis yn darllen Salm 46. Roedd gweddi Beti-Wyn yn sôn am ddylanwadau, a dyna hefyd oedd thema'r bregeth. Cyfeiriodd Beti-Wyn at nifer o'r afonydd y sonnir amdanynt yn y Beibl, a'r cyffro a geir mewn afon wrth i gerrig gael eu taflu iddi, gyda maint y garreg yn effeithio ar faint y cyffro. Yr un math o beth a geir mewn bywyd. Mae rhai pobl yn dylanwadu'n fwy arnom nag y gwna eraill e.e. ein teulu. Felly roedd hi yn hanes Iesu Grist a fyddai'n cydnabod dylanwad ei fam yn arbennig arno. Yn ogystal â'r teulu mae pobl nad ydynt o angenrheidrwydd o'r un anian â ni yn effeithio arnom, e.e. cyfeiriodd Beti-Wyn at y Cristion, Martin Luther King, yn cael ei effeithio gan Gandhi, yr Hindŵ. Dylanwadodd Iesu Grist, yn ei dro, ar nifer o bobl, ond y dylanwad mwyaf oedd Duw yn anfon ei fab ei hun i'n byd ni. Soniodd hefyd am effaith yr Ysbryd Glân ar ddilynwyr Iesu. Wrth gloi gofynnodd pa ddylanwad a adawn ni ar bobl eraill, gan ei fod yn ddyletswydd arnom i ddylanwadu'n dda ar bobl.

Llyn Brianne a swper

Yn dilyn yr oedfa teithiwyd tuag at lyn Brianne i aros yno am ychydig, a chael cyfle i fwynhau hufen iâ wrth yr argae, cyn tramwyo i'r New Cross, Dryslwyn, a chael llond bol o swper blasus gyda theulu'r Blakeman. Rhaid oedd canu ychydig o emynau i gyfeiliant Heather Williams am y piano cyn ymadael.

Cyrhaeddwyd gartref wedi mwynhau, cael diwrnod bendithiol yng nghwmni'n gilydd, ac yn edrych ymlaen at y bererindod nesaf. Diolch i Beti-Wyn am yr holl waith trefnu.

Joan Thomas, Heol Awst

Geraint Rees, Caeralaw: Cerddor dawnus a chymeriad cymwynasgar

Llun gan Alun Lenny

Brawychwyd rhan eang o Sir Gâr a thu hwnt gan farwolaeth sydyn Geraint Rees, cerddor a chymeriad mawr, dyn hynaws a charedig. Roedd presenoldeb tua 500 o alarwyr a 12 o weinidogion yn yr angladd gyhoeddus yng nghapel Heol Awst, Caerfyrddin ar ddydd Sadwrn 13 Gorffennaf yn dyst i'r parch mawr oedd tuag ato. Gwasanaethwyd gan y Parchedigion Desmond Davies, Euros Jones Evans, Beti-Wyn James ac Illtyd Protheroe. Yr organydd oedd Meirion Wynn Jones. Roedd y tri chôr y bu'n perthyn iddynt yn y gynulleidfa, gan roi naws cymanfa ganu i'r angladd, a fyddai wrth fodd Geraint. Cynhaliwyd oedfa breifat i'r teulu a chladdedigaeth yng nghapel Annibynnol Rama, Llandyfaelog, ei gartref ysbrydol, ble roedd yn ddiacon teyrngar, codwr canu angerddol ac organydd medrus.

Piano'n agor drysau

Ganwyd William Geraint Rees ar 28 Rhagfyr 1950 yng Nghaerfyrddin a chafodd ei fagu ar fferm Cilmarch yn fab i John ac Olwen Rees. Ar ôl addysg yn ysgol Idole ac yna Ystrad Tywi, y llwybr amlwg i Geraint fyddai amaethu. Ond nid oedd ffermio yn apelio lawer at Geraint, felly fe brynon ei rieni biano iddo. Llywiodd y cyflwyniad cynnar hwn i'r piano ei fywyd yn llwyr ac agor drysau dirifedi gan feithrin a datblygu cerddor talentog ac angerddol iawn. Fel nododd y geiriau ar daflen yr angladd: 'Roedd y gân yn ei galon, a'i galon yn sicr yn y gân.' Ac fel awgryma enw ei gartref, aelwyd gerddorol iawn oedd Caeralaw.

Eisteddfodwr brwd

Ers yn bum mlwydd oed bu Geraint yn eisteddfodwr brwd. Enillodd ar yr unawd dan 12 yn Eisteddfod yr Urdd yn Rhuthun yn 1962, a'r flwyddyn ganlynol daeth yn ail yn yr unawd a'r unawd Gerdd Dant dan 12 yn Eisteddfod Genedlaethol Llandudno.

Ar ôl i'w lais dorri, rhoddodd fwy o bwyslais ar y piano ac arweiniodd hynny at fyd y cyfeilio. Datblygodd i fod yn gyfeilydd adnabyddus ac mae cantorion amlwg megis y diweddar Washington James, Ann Davies (Aelod Seneddol newydd Caerfyrddin), Helen Gibbon, Gwynedd Parry, Emyr Jones, cystadleuwyr yr Urdd a'r Ffermwyr Ifanc a llawer iawn mwy ymhlith y rhai wnaeth ymddiried yn ei fedrusrwydd wrth y piano.

Meithrin cystadleuwyr

Roedd angerdd Geraint am eisteddfodau, a'i awydd i feithrin cystadleuwyr ar lawr gwlad, yn ddiderfyn. Byddai'n teithio o gwmpas ysgolion lleol yn wythnosol ac mae cannoedd o ddisgyblion wedi elwa o'i barodrwydd gwirfoddol. Ond Eisteddfod Llandyfaelog oedd 'Eisteddfod Genedlaethol' Geraint ac o'r cychwyn bu'n cefnogi, casglu nawdd a threfnu ar y cyd â'r pwyllgor. Ystyriai hi'n anrhydedd fawr o gael ei ethol i fod yn llywydd yr eisteddfod honno ar ôl oes o'i chefnogi. Roedd cael ei adnabod fel Geraint Maelog yn yr Orsedd yn adlewyrchu ei falchder yn ei fro. Geraint arall oedd yn gysylltiedig ag Eisteddfod Llandyfaelog oedd Geraint Roberts, a anwyd dridiau cyn Geraint Rees, yn ysbyty Glangwili, ac a luniodd englyn i'w gofio:

Gŵr a llais ei fro gerllaw – un ydyw
â'r nodyn yn flaenllaw,
a daw'r ŵyl yn ddi-ben-draw
o'r welydd yng Nghaeralaw.

Gyrfa ddyddiol

Ar ôl gadael yr ysgol, gweithiodd Geraint gartref ar y fferm i ddechrau, ond yn fuan aeth i weithio mewn cyfnewidfa ffôn ac yna fel porthor yn ysbyty seiciatryddol

parhad ar dudalen 6

Yr Adran Gydenwadol

MEDI 12 2024 RHIF 185

Torri Bara gyda'ch Aelod Seneddol

'A gadewch i ni feddwl am ffyrdd i annog ein gilydd i ddangos cariad a gwneud daioni', Hebreaid 10:25.

Yn ystod Eisteddfod Rhondda Cynon Taf, lansiwyd adnodd newydd yn y Gymraeg gan Gymorth Cristnogol, sef 'Torri Bara gyda'ch Aelod Seneddol Newydd'.

Wrth i'n Haelodau Seneddol newydd setlo wedi'r Etholiad Cyffredinol, mae Cymorth Cristnogol yn galw arnom i fagu perthynas ac i ddechrau sgwrsio gyda'n cynrychiolwyr yn San Steffan.

Gyda newid mewn Llywodraeth, daw'r cyfle i ni roi ein ffydd ar waith ac annog y rhai mewn sefyllfaoedd o rym i sicrhau bod materion cyfiawnder byd-eang ar flaen eu hagenda.

Mae'r adnodd newydd (hefyd ar gael yn Saesneg: 'Breaking Bread with your new MP') yn ganllaw ar groesawu'r Aelod Seneddol newydd i'ch eglwys – p'un ai i fore coffi neu ginio cawl.

Yn ogystal â'r adnodd 'Torri Bara', mae yna hefyd adnoddau eraill sy'n egluro'r hyn y mae Cymorth Cristnogol yn galw ar lywodraeth newydd y Deyrnas Unedig i'w wneud. Er enghraifft, mae tair taflen gwybodaeth ar yr angen am heddwch, cyfiawnder dyled a chyfiawnder hinsawdd. Hefyd, mae yna gwrs o'r enw 'Taclo Tlodi' er mwyn helpu Cristnogion i ddeall materion tlodi a chyfiawnder a sut i siarad gyda chynrychiolwyr gwleidyddol amdanynt.

Diolch i'r arweinwyr eglwysig ac i bawb am arwyddo'r cerdyn ymgyrch yn yr Eisteddfod ac i ddisgyblion Ysgol Bro Caereinion, Llanfair Caereinion, am y gwaith celf ddefnyddiwyd ar flaen y cerdyn.

Staff a chefnogwyr Cymorth Cristnogol o Bontypridd yn cyfarfod eu Haelod Seneddol, Alex Davies-Jones, i alw am weithredu ar gyfiawnder hinsawdd, dyled a thros heddwch

Ond yn ôl at 'Torri Bara'. Trwy wahodd yr Aelod Seneddol sydd newydd ei ethol i'ch eglwys i dorri bara a siarad am dlodi, gallech sbarduno perthynas ar gyfer trechu tlodi a allai bara am flynyddoedd i ddod.

Mae torri bara yn symbol o groeso, lletygarwch, gofal, didwylledd a heddwch. Wrth dorri bara, rydym yn adeiladu ac yn cryfhau ein perthynas ag eraill. Gall y prydau symlaf – hyd yn oed paned de a bisged – helpu i feithrin perthynas.

Mae'r weithred gyffredin a symbolaeth rhannu bara â dieithriaid yn amlwg mewn sawl rhan o'r Beibl. Byddai Iesu'n aml yn rhannu bara gyda'i gymdogion ac yn dod yn gyfaill iddynt. Fel gweithred ganolog y Swper Olaf, mae torri bara yn llawn arwyddocâd arbennig i Gristnogion.

I ganfod mwy, ewch i wefan Cymorth Cristnogol a chliciwch ar 'Get Involved', ac wedyn ar 'Campaigns'.

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 15 Medi am 7.30yh – Cymuned Efail Isaf

Lowri Morgan sy'n ymuno ag aelodau brwd y Tabernacl, Efail Isaf, i ddysgu sut mae'r capel wedi troi'n ganolbwynt i'r gymuned. Cawn gwrdd â gwirfoddolwyr diwyd sy'n rhoi Cristnogaeth ymarferol ar waith mewn projectau dyngarol a gardd gymunedol. A chawn ymuno â chynulleidfa'r Tabernacl i fwynhau rhai o'n hoff emynau.

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 15 Medi, am 7:30yb a 4:30yp

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Rhun ap Robert, Bro Enlli

Oedfa Radio Cymru

Sul, 15 Medi, am 12:00yp

Oedfa dan ofal John Pritchard, Llanberis

Gyda thymor yr Ysgol Sul yn ailddechrau wedi seibiant yr haf, mae Cyngor yr Ysgolion Sul yn falch o gyhoeddi y bydd yna gynllun a gwersi ar gael ar gyfer pob oed. Bydd y deunydd hefyd yn addas ar gyfer astudiaeth bersonol neu astudiaeth grŵp.

O ran y plant, fe fydd adran ar wefan gair.cymru yn cynnig stori ar gyfer pob wythnos, gyda digon o adnoddau ar gyfer pob oed i'w cael yn rhad ac am ddim. Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth yn *Cenn@d* a fydd yn nodi manylion am wers yr wythnos; gweler yr un gyntaf ar dudalen 3 yn y rhifyn hwn.

Bydd yr oedolion eleni yn troi at gyfrol Gareth Lloyd Jones, gan ddechrau tymor yr hydref gyda Llyfr Ruth, cyn troi i gyfeiriad Llyfr y Pregethwr yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Parch. Bryn Williams am gydsynio i baratoi gwersi wythnosol yn *Cenn@d* ar ein cyfer.



Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr

gan Gareth Lloyd Jones (Cyhoeddiadau'r Gair)

Rhagarweiniad i Lyfr Ruth

Mae Llyfr Ruth yn cael ei ystyried yn 'em lenyddol' gan ddiwinyddion, beirdd a llenorion. Yn ddiddorol iawn, Ruth ac Esther yw'r unig ddau lyfr yn y Beibl lle ceir gwraig yn brif gymeriad.

O ran dyddiad, y gred draddodiadol ydoedd mai yn union ar ôl marwolaeth Josua a dechrau cyfnod y Barnwyr y perthyn y llyfr (1150–1100 CC) ac mai Samuel oedd yr awdur. Ond mae barn fwy diweddar yn cyfeirio at ddyddiad yn dilyn y Gaethglud i Fabilon, a'r awdur yn anhysbys (tua 500 CC).

Adrodd hanes teulu sy'n byw yn ardal Bethlehem a wneir yn Llyfr Ruth, gan ddisgrifio ôl llaw Duw arnynt. Ynddo, darllenwn am ŵr a gwraig yn symud o Fethlehem i wlad Moab. Roedd gwlad Moab yn ddyffryn eang a ffrwythlon, yn lle addas i dyfu grawn ac yn dir pori i ddefaid a geifr, ac yn ymestyn i'r dwyrain o'r Môr Marw. Yma cawn hanes am briodas rhwng dau Iddew a dwy wraig o wlad Moab. Ond, o gyrraedd diwedd yr hanes, gwelwn fod un ohonynt, sef Ruth, yn dod i gael ei gosod yn llinach Iesu Grist. Gan mai Moabes oedd Ruth – mae hyn yn dangos apêl ehangach y Meseia – byddai nid yn unig yn gwaredu Israel ond yn cynnig gwaredigaeth i bawb ym mhob man.

I'r Iddew, mae Llyfr Ruth yn rhan o'r Megilloth (Y Pum Sgrôl), sef Caniad Solomon, Galarnad Jeremeia, Llyfr y Pregethwr, Esther a Ruth. Roedd yr Iddewon yn darllen llyfr Ruth yn ystod Gŵyl y Cynhaeaf (Gŵyl yr Wythnosau), sef gŵyl y Pentecost yn ddiweddarach.

Beth bynnag am ddyddiad y llyfr, mae'r hanes wedi ei osod yng nghyfnod y Barnwyr yn Israel, rhwng 1380 a 1050 CC.

Cyfnod o gilio oddi wrth yr Arglwydd a dychwelyd yn ôl ato oedd hwn, cyfnod pan oedd Duw yn codi arweinwyr amlwg fel Gideon a Samson i waredu'r bobl. Roedd hwn yn gyfnod tywyll, yn gyfnod o anfoesoldeb moesol, dirywiad ym mherthynas Duw a'i bobl ac o ddiffyg undod. Roedd yr Israeliaid wedi ymosod ar drefi'r Moabiaid a pheri chwerwedd oherwydd hynny. Roedd pobl Moab yn cael eu gweld fel disgynyddion plentyn Lot, nai Abraham, efo'i ferch ei hun. Felly, i'r Iddewon, doedd yna ddim urddas nac anrhydedd yn achau Ruth.

Ond disgrifio cyfnod o heddwch rhwng Israel a Moab y mae Llyfr Ruth, gan graffu yr un pryd ar hynt a helynt yr un teulu Iddewig yma.

Llyfr ydy Ruth sy'n adrodd am y canlynol:

- rhinwedd a daioni'n cael eu gwobrwyo;
- calon Ruth, a'i hawydd i wasanaethu ei theulu newydd ynghyd â Duw ei theulu newydd;
- diwydrwydd a gweithio'n galed yn dod ag urddas i fod yn dlawd;
- ymyrraeth Duw ym mywydau pobl gyffredin;
- y rheol Iddewig fod aelod o deulu'n diogelu aelod arall o'r teulu, a'r cyd-destun ehangach wedyn i ni mewn perthynas â'r diogelwch yn Iesu Grist;
- parchu dieithriaid, ffoaduriaid a gwragedd.

Yn y llyfr rydyn ni'n cyfarfod â phobl arbennig: Ruth ei hun, Naomi, Elimelech, Mahlon, Chilion, Orpa a Boas. Ynddo, cawn ein cyflwyno i'r gair 'mara'.

Bydd edrych ar yr adnodau isod yn ein cynorthwyo ar y dechrau fel hyn i ddeall mwy am Lyfr Ruth:

"Yr ydych chwithau i garu'r dieithryn, gan ichwi fod yn ddieithriaid yng ngwlad yr Aifft." (Deuteronomium 10:19)

"Y mae'r estron sy'n byw gyda thi i'w ystyried gennyt fel brodor o'ch plith; yr wyt i'w garu fel ti dy hun, oherwydd estroniaid fuoch chwi yng ngwlad yr Aifft. Myfi yw'r ARGLWYDD eich Duw." (Lefiticus 19:34)

" 'Melltith ar y sawl sy'n gwyro barn yn erbyn estron, amddifad neu weddw.' Y mae'r holl bobl i ddweud, 'Amen'." (Deuteronomium 27:19)

"Tad yr amddifaid ac amddiffynnydd y gweddwon yw Duw yn ei drigfan sanctaidd." (Salm 68: 5)

"Y mae'r ARGLWYDD yn gwylio dros y dieithriaid, ac yn cynnal y weddw a'r amddifad; y mae'n difetha ffordd y drygionus." (Salm 146:9)

"Oherwydd bûm yn newynog a rhoesoch fwyd imi, bûm yn sychedig a rhoesoch ddiod imi, bûm yn ddieithr a chymerasoch fi i'ch cartref." (Mathew 25:35)

"Cyfrannwch at reidiau'r saint, a byddwch barod eich lletygarwch i ddieithriaid." (Rhufeiniaid 12:13)

Disgrifiodd Goethe, y bardd enwog o'r Almaen ac un o feddylwyr mwyaf ei gyfnod (1749–1832), Lyfr Ruth fel, 'Y gwaith mwyaf prydferth a chyflawn mewn cyn lleied o eiriau.'

Mae Llyfr Ruth yn dangos y gwirionedd fod Duw ynglŷn â gweithio efo'i bobl ac o blaid ei bobl. Mae'r llyfr wedi ei osod yn ein Beibl i'n hannog a'n hadeiladu yn y ffydd, fel y byddwn yn adnabod cariad Duw tuag at ei bobl, ac er mwyn ein helpu ni i weld cynllun mawr Duw ar gyfer ein bywydau ninnau. Felly, beth am i ni wneud ein hunain yn barod ar gyfer y daith efo Ruth a Naomi gan geisio hefyd edrych yn fwy cyffredinol ar y cymeriadau eraill yn y llyfr, yn ogystal â dysgu am draddodiadau, diwylliannau a daearyddiaeth y cyfnod. Paratown ein hunain i gael ein hysbrydoli a'n hadeiladu wrth astudio Llyfr Ruth. Dyma fy ngweddi dros yr wythnosau nesaf.

(Cyn dechrau ar y gwersi, cofiwch ddarllen y llyfr drwyddo – rhyw chwarter awr neu lai fydd hynny'n ei gymryd.)

Cwestiynau i'w trafod

1. Beth ydy gwerth a grym stori? Pa un oedd y stori gyntaf i chi gofio'i chlywed?
2. Meddyliwch am hanes cymeriad o'r Hen Destament sydd wedi'ch cyffwrdd yn bersonol.
3. Beth ydy'ch disgwyliadau o astudio Llyfr Ruth?

W. Bryn Williams

Gwersi Stori Duw

O 15 Medi ymlaen, byddwn yn cychwyn ar gyfres o wersi Beiblaidd a fydd ar gael yn rhad ac am ddim o wefan gair.cymru – a hynny er mwyn cefnogi gwaith plant ac ieuenctid yn ein heglwysi.

Byddwn yn gwneud hynny drwy ddilyn cyfres werslyfrau Stori Duw, lle ceir deunydd ar gyfer rhai rhwng 3 a 18 oed.

Bydd y gyfres o 44 gwers yn ein harwain drwy'r Beibl, a bydd digon o ddeunyddiau, gan gynnwys gwersi, storïau, gwaith crefft, taflenni gwaith, ffilmiau a gemau ar gael am ddim o'n gwefan. Mae modd prynu llyfrau gwersi i'r plant hefyd, cyfrolau o werslyfrau a llyfrau lliwio. Hefyd, mae modd defnyddio Beiblau Gweithgaredd gyda'r gyfres.

Bydd yr adrannau hyn yn cael eu datblygu o wythnos i wythnos o fis Medi ymlaen.

Cliciwch ar y poster ar y chwith er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

Capel Blaenannerch yn cofio Evan Roberts a Diwygiad 1904/05

Mae Capel Blaenannerch yn addoldy pwysig yn hanes Diwygiad Methodistaidd 1904/05. Yn ystod gwasanaeth yn y capel ar Fedi 29ain, 1904, tra oedd Seth Joshua, a sefydlodd y Mission Hall yng Nghastell-nedd, yn pregethu, cafodd gŵr ifanc o'r enw Evan Roberts brofiad ysgytwol a gweiddi: 'Plyg fi, plyg fi' (Bend me, Lord).

Eleni, mae'n 120 mlynedd ers y digwyddiad hwnnw ac felly priodol yw ein bod yn nodi'r ffaith trwy drefnu oedfa arbennig. Bydd y Parch. Ifan Mason Davies yn ein hannerch, Dr Eryn White yn rhoi cefndir a hanes y Diwygiad a'r Parch. Llunos Gordon yn offrymu gweddi.

Mae'r Dr Rhidian Griffiths wedi paratoi ychydig o hanes yr emynau y byddwn yn eu canu, a bydd llawer o aelodau'r capel yn cymryd rhan hefyd.

Mae croeso cynnes i bawb i ymuno â ni ar Fedi 29ain am 2.30 y prynhawn.

Capel Blaenannerch

Gwasanaeth Arbennig

i nodi

120 mlynedd ers

Diwygiad 1904

Dydd Sul 29ain o Fedi 2024

am 2.30 y.p.

Dewch i glywed yr hanes ac i ganu rhai o'r emynau poblogaidd ar y pryd.

Te yn y Festri i ddilyn

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

Geraint Rees, Caeralaw – parhad

Dewi Sant, Caerfyrddin. Yno ffurfiodd sawl perthynas agos gyda chydweithwyr a chael sgyrsiau hwyliog gyda'r cleifion. Oherwydd ymroddiad a thalent Geraint, bu'n organydd yn yr eglwys yno am dros ugain mlynedd.

Diddordebau eang

Roedd gan Geraint ddiddordebau eang. Byddai'n mwynhau peint cymdeithasol gyda'i ffrindiau ac yn joio mynd i'r Cnapan neu ddawnsfeydd sioeau lleol yn flynyddol. Roedd yn mwynhau gwylio rygbi ar y teledu a mynychu gemau rhyngwladol gyda'r bois yn bur aml. Byddai wrth ei fodd yn troi at y piano mewn *sing along* gyda'r ffrindiau, neidio ar y trampolîn gyda'r plant neu sgïo ar lethrau Awstria. Hoffai actio, a pherfformiodd mewn sawl pasiant gyda chylch capeli Caerfyrddin. Un tro bu'n rhaid iddo dyfu barf i'r perfformiad a bu hon yn stori fawr ganddo am sawl wythnos. Roedd Geraint yn ddiddanwr naturiol, gyda'i chwerthin a'i wên heintus yn creu argraff arhosol ar bawb a fu'n ffodus o'i adnabod.

Teithio'r byd

Byddai Geraint wrth ei fodd yn teithio a bu ar wyliau sawl tro gyda'r corau a'i ffrindiau. Mae ei basbort yn tystio iddo fod mewn llefydd fel Patagonia a Machu Pichu, yr Eidal, Ffrainc, Toronto, Brasil, Barbados, Torrevieja, Awstria, Lanzarote a llawer mwy. Roedd y fordaith i'r Caribî yn sicr yn un gofiadwy lle y bu'n aelod blaenllaw o Gôr y Cymry yng nghwmni neb llai na Trebor Edwards. Ymhlith y straeon doniol mae'r un am golli ei basbort ar y fordaith. Ei sylw oedd 'peidiwch poeni, mae ar y llong yma'n rhywle!'

Cymwynaswr mawr

Buodd yn perthyn i nifer o gymdeithasau lleol a chenedlaethol. Pan oedd yn iau, bu'n aelod brwd o'r Diddanwyr, Bois y Dderwen, Perlau'r Fro, Y Llan a hefyd Y Cymodwyr. Bu'n cyfeilio mewn cymanfaoedd modern ar draws y sir.

Tynnai gerddorion ifanc ynghyd i'w gynorthwyo yn y bandiau unigryw hyn gan rannu ei dâl rhyngddynt. Dyna enghraifft o'r Geraint caredig. Yn fwy diweddar, ei deulu agos estynedig oedd aelodau Côr Llanpumsaint, Côr Glannau'r Gwendraeth, a'r OMA gwreiddiol – sef Only Mynydd Aloud! Ar hyd ei oes, bu Geraint yn gymwynaswr ar sawl, sawl lefel wahanol. Bu'n gweithio'n galed i godi arian at elusennau ac achosion da, gan gynnwys yr Organathons bythgofiadwy! Bu'r gyngerdd llynedd yng nghwmni Côr Godre'r Aran yn llwyddiant ysgubol. Cyflwynodd siec o £4,000 i ward Dan Danino, ysbyty Treforys, ble treuliodd sawl wythnos o dan eu gofal.

Cyffwrdd â bywydau cymaint

Fe wnaeth Geraint Rees gyffwrdd â bywydau cymaint o bobl, mewn sawl gwahanol ffordd. Roedd yn halen y ddaear yn wir, a chan fod cerddoriaeth, atgofion, cariad a ffydd yn drech na'r bedd, fe fydd cân Geraint yn sicr yn parhau.

I gofio'n annwyl am Geraint, haf 2024

Ar ddiosteg awr ddistaw – yn y Llan,
mor llonydd yw'r dwylaw;
ond daw'r wên i gadw'r traw
a'r heulwen dros Gaeralaw.

Siw Jones (cyfnithder i Geraint)

(Seiliwyd yr erthygl hon ar y deyrnged a draddodwyd yn Heol Awst gan ei gefnder Gary Anderson.)

GOHEBIAETH

Annwyl Brif Olygydd *Y Tyst*,

Dyfodol *Y Tyst*

Gair cwbl ddiffuant ac apelgar. Pleser o'r mwyaf i mi'n bersonol yw derbyn *Y Tyst* yn wythnosol a hynny yn ei ffurf bresennol. Edrychaf ymlaen yn eiddgar i'w gael.

Cafwyd nifer o erthyglau yn ystod yr wythnosau olaf yn y cyd-destun hwn am barhad *Y Tyst* ar bapur a gallaf

ond ategu apêl pob un ohonynt. Rhaid dweud i mi gael fy syfrdanu gyda'r syniad hyd yn oed o feddwl am derfynu'r cylchgrawn gwerthfawr hwn fel y mae. Mae *Y Tyst* yn rhywbeth y gellir ei weld a'i deimlo (tangible).

Afraid dweud ein bod yn byw mewn cyfnod o ostwng safonau, trai ar grefydd a lleihad mewn mynychu oedfa.

Diflannu wnaeth y cwrdd gweddi, y gymanfa ganu a'r gymdeithas ddiwylliadol mewn nifer helaeth o'n heglwysi. Ai dyma fydd *tynged Y Tyst* yn ei ffurf bresennol?

Diflannu wnaeth nifer o eglwysi gan gynnwys fy hen eglwys annwyl yn y Rhiwfawr. Digalondid llwyr yw darllen am oedfaon datgorffori nifer ohonynt. Ar y llaw arall, calondid yw darllen ar dudalennau *Y Tyst* am weithgarwch eglwysi ym mhob cwr o Gymru ynghyd â'r dathliadau.

Rwy'n ymwybodol iawn o gost cyhoeddi *Y Tyst* yn ei ffurf bresennol. Mae cyfalaf i'w ddefnyddio i bwrpas arbennig, ac y mae cyfalaf yr Undeb yn ddigonol i gwrdd â'i holl gostau. Apeliaf yn daer atoch i barhau cyhoeddi *Y Tyst* yn ei ffurf bresennol. Anghofiwn ac anwybyddwn unrhyw dechnoleg sydd yn diddymu darllen ar bapur, cylchgrawn neu lyfr. Mae nifer helaeth o'n hen aelodau sy'n ffyddloniaid yn ein heglwysi heb unrhyw fath o dechnoleg. Bydd peidio â pharhau a'r *Tyst* yn eu hamddifadu o rywbeth gwerthfawr iawn.

Yn ddiffuant ac yn obeithiol,

Morlais Dyfnallt Owen



Barn Annibynnol

Gŵyl Greenbelt 2024

A minnau wedi troi'r trigain oed, prin y byddwn wedi disgwyl chwarter canrif yn ôl y byddwn yn dal i fynd ar ddiwedd Awst i ŵyl Greenbelt. Fe ddechreuodd hi fel gŵyl i bobl ifanc nôl yn yr 1970au. Hanner canrif yn ddiweddarach, mae hi'n ŵyl i bob oed gyda thrawstoriad o bobl yn mynychu - o fabanod a phlant bach i bobl sydd dipyn dros eu 80. Ac mae yno rywbeth i bawb.

Saif tri pherson yn flaenllaw yn y cof wedi gŵyl eleni.

Offeiriad Ffransisgaidd

Rwy wedi bod yn dilyn gwaith Richard Rohr ers dros ddegawd. Mae'r offeiriad Ffransisgaidd 81 oed wedi dylanwadu ar filiynau o bobl trwy ei waith yn rhedeg y Ganolfan dros Fyfyrio a Gweithredu ers 1987. O achos ei iechyd bregus (mae ganddo ei bumed math gwahanol o gancr ar hyn o bryd) fe wnaeth sesiwn holi ag ateb ar sgrin fawr - yntau'n darlledu o'i gegin yn New Mexico yn fyw, atom ninnau mewn cae yn Lloegr. Roedd y cyfan yn gwbl ddi-dor ag yntau yn ein hannog i arfer ei arddulliau myfyrgar i greu byd gwell.

Anogodd ni i geisio osgoi meddwl yn ddeuol am bopeth, ac i setlo yn hytrach am fywyd cyfriniol, llai sicr. Beirniadodd yr arfer o osgoi heriau dwysaf yr enaid (*spiritual bypassing*) wrth daflu adnod gyflym at bobl, heb ystyried yn gyntaf yr amrywiaeth o atebion y gellid eu rhoi. Gadawodd ni gyda'r datganiad fod bod yn grac yn bwydo'r ego, tra bod dagrau yn bwydo'r enaid. Bwydwch eich enaid oedd ei apêl gyson.

Cristion o Balestina

Cymeriad arall fu'n greiddiol i greu ethos cymodlon y penwythnos oedd Daoud Nassar o'i fferm ger Bethlehem. Palestiniad o Gristion yw Daoud sy'n rhedeg fferm o dan yr enw 'Tent of Nations'. Methodd deithio i Greenbelt am fod coloneiddwyr Iddewig yn ceisio dwyn ei fferm, a honno wedi ei thystysgrifo ers 1916 i fod yn eiddo i deulu Daoud. Roedd yn ofni pe bai'n gadael ei fferm er mwyn dod i Greenbelt, byddai'n dychwelyd i ddarganfod ei wraig a'i blant wedi eu troi o'u tir a'u cartref. Yn lle, fe ymunodd â ni trwy ddolen fideo, reit i ganol ein cymundeb bore Sul. Roedd ei deulu'n cymuno gyda ni, a hynny trwy rym lloeren. Gofynnwyd iddo pa werthoedd yr oedd yn dysgu i'w blant yng nghanol helbulon presennol Israel a Phalestina. Ei ateb oedd, 'Peidiwch â chreu gelynion, gwrthodwch yr ysfa i gasáu, byddwch fyw eich ffydd ac ymgyrchwch dros gyfiawnder i bawb.' Cryno. Perthnasol. Heriol. I ni gyd.

Flamy Grant

I gloi'r cymundeb fore Sul, cafwyd cân gan y gantores gospel drag Flamy Grant. Hi yn sicr oedd seren y penwythnos. Unigolyn cwbl ysbrydoledig yn canu caneuon doeth, deifiol ac ysbrydol, wedi blynyddoedd o ddioddef sen a gwawd gan eglwys ei blentyndod ac arweinwyr ffwndamentalaidd America, a hynny o achos ei rywioldeb. Wedi pum mlynedd yn dioddef o dan *conversion therapy* neu gam-drin seicolegol dwys, fe benderfynodd Flamy na allai fod yn unrhyw beth ond ef ei hun, hi ei hun. Mewn pinc llachar, rhoddwyd genedigaeth i Flamy Grant, ac fe ddaeth i Greenbelt 2024 i'n herio a'n diddanu wrth i ni ystyried pwy ydym ni, yn ein craidd, bob un.

Mae tocynnau 2025 wedi eu prynu a'r tŷ i 8 o bobl wedi ei logi. Yr hyn sydd yn fy rhyfeddu yw cyn lleied o arweinwyr eglwysig o Gymru sy'n manteisio ar ŵyl ryfeddol sy'n tynnu'r amrywiaeth unigryw o bobl at ei gilydd wrth i ni ymlwybro i greu ffydd sydd yn ffit i'n hoes - a hynny gyda Greenbelt yn cynnig disgownt enfawr i arweinwyr eglwysig. Yng nghaeau gwyrdd Greenbelt mae economeg, diwinyddiaeth, jazz, cymdeithaseg, gweddi, Crynwyr, hip hop, celf gain, Handel, theatr, ynys Iona, meim, Lleuwen Steffan, comedi, cyfiawnder, ysbrydolrwydd aborijini, cerddoriaeth Affricanaidd, Taizé, stand-yp, dawns, a mwy yn dod at ei gilydd. Ar yr un pryd ag y mae crefydda Cymru fach yn cysgu'n sownd yn Nhir na nÓg.

Geraint Rees

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan, Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: tyst@annibynwyr.cymru

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel, Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 / 0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

PERTHYN

Rydw i'n cofio un adeg pan oedd Taid yn edrych yn smart ryfeddol. Roedd yn ei siwt 'dydd Sul', crys gwyn a thei du, esgidiau du a *spats* ac ambarél *rolled up* du oedd byth yn cael ei hagor ac eglurodd neb imi pam? Roedd yn mynd i angladd yr hen Morus Lewis. Cofiaf y Parchg J. W. Jones, Conwy, ar ei bregeth yn dweud bod gan yr Iddew man a elwir y 'tŷ a osodwyd i'r rhai byw - i ddangos eu cred yn y byd a ddaw ac yn anfarwoldeb yr enaid ac atgyfodiad' sef mynwent. Mae teulu ni ym mynwent Betws Garmon, Waunfawr, ac awn yno'n rheolaidd i ddiolch i'r Duw anfeidrol am ei ofal tyner dros y teulu. Mae'n wahanol heddiw, yn y 'crem' ynte?

Ers talwm roedd angladd yn rhywbeth arbennig – pawb yn gwisgo'n barchus fel Taid ac yn cerdded gyda'r hers. Cofiaf pan oeddwn yn hogyn ysgol os oedd angladd yn dod roedd rhaid sefyll wrth y pafin. Tynnu cap a phlygu pen mewn parch, Crwys dywedodd 'Rhywrai'n hebrwng rhywun rhywle, Dyna'r angladd yn y dref.' Doeddech chi byth yn croesi'r ffordd o flaen yr angladd. Yn sicr lawer tro rhywun nad oeddwn i'n eu hadnabod oedd yn pasio. Llawer tro roeddwn yn gofyn pwy?

Ie, digon yw'r cwpled, 'Rhywrai'n hebrwng rhywun rhywle,' pasio, pasio. Ond, ydych chi wedi meddwl weithiau petasai'r galar yma wedi dod i'n cylch bach ninnau bydd 'rhywrai' yn troi'n deulu. 'Rhywun' yn troi'n anwylyn, a 'rhywle' yn troi'n garreg fedd mewn mynwent neu wrn mewn amlosgfa.

Cofio clywed hanes y Parchg ldwal Jones yn Ysbyty Gwynedd yn siarad â hen wraig oedd yn edrych yn drallodus. 'Codwch eich calon – maent yn medru gneud pethau mawr heddiw.' Ateb yr hen wraig oedd, 'Mi wn i hynny, Idwal Jones, ond mae'n wahanol pan rydych yn *perthyn* on'd ydy?' Eitha gwir.

Elwyn Parry



Diwrnod i
Arweinwyr Addoliad, Pregethwyr Cynorthwyol, a darpar Bregethwyr Cynorthwyol

Ydych chi'n Arweinydd Addoliad, yn Bregethwr Cynorthwyol, neu yn ystyried cychwyn arwain addoliad, boed hynny yn eich eglwys leol, neu mewn eglwysi eraill?

Os ydych, carem eich gwahodd i ddiwrnod arbennig wedi ei drefnu ar eich cyfer chi.

Dydd Gwener, 20 Medi 2024
10:00 – 3:30 o'r gloch yn Llety'r Parc, Aberystwyth

Yn ystod y diwrnod, bydd rhai o'r unigolion sydd wedi dilyn y modiwl 'Addoli a Phregethu' yn ddiweddar yn cyflwyno myfyrdod.

Hefyd, bydd cyfle inni ymuno mewn dwy sesiwn arbennig, sef:

'Y Celfyddydau mewn Addoliad – Parchg Owain Llyr Evans
'Addoliad Pob Oed' – Parchg Beti-Wyn James

I gofrestru, cysylltwch â'r Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau:
carwyn@annibynwyr.cymru

Croeso cynnes i bawb

Trefnir y diwrnod dan nawdd Cynllun Dysgu a Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Gorllewin Morgannwg

Cymanfa Cyhoeddi

Eisteddfod Dur a Môr, Parc Margam a'r Fro 2025

Dydd Sul, Medi 29ain 2024
15:00
Eglwys Dewi Sant, Castell-nedd

Arweinydd - D. Huw Rees,
Organydd - Huw Tregelles Williams,
Allweddellau - Aled Maddock,
a cherddorion ifanc yr ardal.

Mynediad trwy raglen am £5.
Ar gael o Dŷ Tawe, Tŷ'r Gwrhyd a Swyddfa'r Urdd
07976 003335

Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.